BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

BYW'N DDA
LIVING WELL

# Astudiaeth Achos: Cefnogi Plant Niwroamrywiol drwy Gysylltwyr Cymunedol

## Cefndir

**Mae niwroamrywiaeth yn cwmpasu ystod o wahaniaethau mewn swyddogaeth a phatrymau ymddygiad yr ymennydd, gan gynnwys awtistiaeth, ADHD, dyslecsia, a gwahaniaethau gwybyddol eraill. Crëwyd y fenter Gysylltwyr Cymunedol i ddarparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer plant niwroamrywiol, gan sicrhau eu bod hwy a'u teuluoedd yn cael y cymorth, yr arweiniad a'r cyfleoedd cywir i ffynnu.**

## Beth yw Cysylltydd Cymunedol?

**Cysylltydd Cymunedol yw gweithiwr proffesiynol neu wirfoddolwr sy'n helpu unigolion a theuluoedd i lywio ac i gael mynediad at wasanaethau lleol, rhwydweithiau cymorth ac adnoddau cymunedol. Prif rôl y Cysylltydd Cymunedol yw pontio'r bwlch rhwng pobl sydd angen cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt.**

**O fewn cyd-destun y fenter hon, mae Cysylltwyr Cymunedol yn chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi plant niwroamrywiol a'u teuluoedd drwy:**

- **Cyfeirio at Wasanaethau – Helpu teuluoedd i ddod o hyd i'r cymorth perthnasol ac i gael mynediad ato, megis iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol.**
- **Darparu Cymorth Emosiynol a Chymorth Cymheiriaid – Mae gan lawer o gysylltwyr brofiad byw, sy'n eu gwneud yn berthnasol ac yn effeithiol wrth gynnig arweiniad.**
- **Hwyluso Gweithdai a Sesiynau – Trefnu sesiynau addysgol ar bynciau fel cwsg, toiledi, a llywio niwroamrywiaeth.**
- **Lleihau Unigrwydd – Creu rhwydweithiau cymorth cymheiriaid fel nad yw teuluoedd yn teimlo ar eu pen eu hunain gyda'u profiadau.**
- **Eirioli dros Deuluoedd – Gweithio gyda ysgolion, darparwyr gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau bod teuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.**

**Mae'r astudiaeth achos hon yn archwilio'r prif ganlyniadau, yr heriau, a'r gwersi a ddysgwyd o weithredu'r rhaglen Gysylltwyr Cymunedol.**

## Prif Themâu a Chanlyniadau

1. Partneriaethau Cydweithredol
2. Cydweithredu rhwng Asiantaethau

Mae ymgysylltiad gan sefydliadau partner wedi bod yn allweddol i lwyddiant y rhaglen.

Mae cydweithio wedi galluogi digwyddiadau cysylltu ystyrlon a gwaith traws-asiantaethol effeithiol.

***"Mae'r ymgysylltiad gan bartneriaid wedi bod yn gadarnhaol hefyd, o fewn y rhaglen arloesi ac hefyd gan sefydliadau ehangach. Maent wedi cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau gwahanol fel rhan o'r prosiect hwn. Mae'r cyfranogiad hwn wedi arwain at lwyddiant y digwyddiadau cysylltu." — Rheolwr y Gwasanaeth***

***"Maent wedi gweithio'n galed iawn i greu sesiynau ac i feithrin perthnasau ystyrlon ag asiantaethau eraill." — Aelod o Staff Rheng Flaen***

### Datblygu Partneriaethau

- Mae dysgu oddi wrth ein gilydd fel partneriaid wedi cryfhau'r cydweithio.
- Mae cyfleoedd yn bodoli i ymestyn y cysylltiadau ag addysg a chymorth i frodyr a chwiorydd.

**"Mae'n ymwneud â gwerthfawrogi'r perthnasau hynny a'r ffordd rydych chi'n eu meithrin." — Rheolwr y Gwasanaeth**

**"Hoffwn weld mwy o gysylltiad â'r ochr addysg a gwybodaeth am gymorth i frodyr a chwiorydd." — Rhiant/Gofalwr**

### 2. Cymorth Cymheiriaid a Grymuso Rhieni

**Gwerth Profiadau a Rennir**

- Mae rhieni wedi dod o hyd i gefnogaeth werthfawr drwy gysylltu ag eraill sy'n wynebu heriau tebyg.

**"Mae gwybod am brofiadau teuluoedd eraill wedi fy helpu'n fawr i lywio taith Sam." — Rhiant/Gofalwr**

**"Mae'n bwysig clywed gan rieni a gofalwyr eraill am eu trafferthion, ac i allu dysgu am wahanol strategaethau i helpu a chynnig cymorth." — Rhiant/Gofalwr**

### Meithrin Hyder ac Eiriolaeth

- Mae cael mynediad at wybodaeth wedi grymuso rhieni i eirioli dros eu plant yn effeithiol.

***“Maent yn dod i mewn heb wybod pa wasanaethau sydd ar gael, ac yn gadael yn llawer mwy gwybodus — a dyna bwrpas y sesiwn gyfan.” — Aelod o Staff Rheng Flaen***

**“Mae teimlo’n gysylltiedig, ac nad ydym ar ein pen ein hunain, yn rhoi teimlad llawer mwy o ddiogelwch i mi.” — Rhiant/Gofalwr**

## 3. Cymorth Personol, wedi’i Ganolbwyntio ar yr Unigolyn

### Heriau ac Rhwystrau

- Cymorth wedi’i Deilwra ar gyfer Teuluoedd

- Adroddodd teuluoedd fod cael arweiniad personol wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i’w profiad.

***“Unwaith y byddwch yn cael y cyfeirio a’r cysylltiad hwnnw â gwasanaethau, yna gobeithio, er bod rhaid aros tair blynedd am asesiad, bydd eu profiad o aros yn well oherwydd y byddant yn cael y cymorth a’r help sydd eu hangen.” — Aelod o Staff Rheng Flaen***

***“Cysylltodd fy nghysylltydd cymunedol â mi ar adeg hollbwysig o ran ymddygiad fy mab; ni allwn fod wedi siarad ag unrhyw un gwell i ddeall fy sefyllfa, ymddygiad Sam a’r ffordd yr oeddwn i’n teimlo.” — Rhiant/Gofalwr***

### Cyfyngiadau Adnoddau

- Creodd y galw uchel a’r cyllid cyfyngedig heriau o ran darparu’r gwasanaeth.

***“Mae gennym restr aros hir, felly’r her yw methu â chynnig rhywbeth i bawb gyda dim ond ychydig bach o adnoddau.” — Rheolwr y Gwasanaeth***

***“Mae capasiti, yn gyffredinol, wedi bod yn her. Roeddem yn gobeithio cael person arall i ymuno â’n tîm, ond oherwydd y cyllid, nid yw hynny wedi bod yn bosibl ar hyn o bryd.” — Aelod o Staff Rheng Flaen***

### Hygyrchedd y Gwasanaeth

- Roedd amseru’r sesiynau weithiau’n gwrthdaro ag amserlenni gwaith ac ysgol.

***“Mae’r sesiynau’n cael eu cynnal yn ystod oriau gwaith i lawer o bobl ac yn gallu bod ar adegau anodd o ran gollwng a chasglu o’r ysgol. Mae rhieni’n aml yn gorfod cymryd amser i ffwrdd o’r gwaith i fynychu ac i drefnu gofal plant.” — Rhiant/Gofalwr***

## 5. Cynaliadwyedd a Datblygiad yn y Dyfodol

### Cyllid a Sefydlogrwydd Tymor Hir

- Roedd ansicrwydd ynghylch cyllid yn effeithio ar gynllunio tymor hir.

***“Os nad ydych yn gwybod a fyddwch chi’n dal i fod yma ymhen tri mis, sut allwch chi gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf?” — Aelod o Staff Rheng Flaen***

***“Tra bo’r rhestr aros bresennol gennym, byddai cael cyllid cynaliadwy ar gyfer y gwasanaeth hwn am o leiaf y ddwy i dair blynedd nesaf yn ddelfrydol.” — Rheolwr y Gwasanaeth***

### Gwelliant Parhaus ac Ehangu

- **Cynlluniau i ddatblygu darpariaeth y gwasanaeth er mwyn diwallu anghenion teuluoedd yn well.**

***“Rydyn ni’n treialu llawer mwy o waith gyda’r ysgolion eleni, ond yn yr un modd, rwy’n credu bod cyfle i ni weithio’n agosach â meithrinfeydd ac ymweliadau iechyd.” — Rheolwr y Gwasanaeth***

***“Rwy’n gwybod bod y tîm yn dechrau cynnal sesiynau mewn ysgolion fel bod gan rieni ofal plant ac yn gallu mynychu ar ôl gollwng neu cyn casglu o’r ysgol.” — Rhiant/Gofalwr***

## Casgliad

**Mae’r fenter Gysylltwyr Cymunedol wedi gwella’n sylweddol y mynediad at gymorth i blant niwroamrywiol a’u teuluoedd. Er bod heriau fel diffyg ymwybyddiaeth a materion capasiti’n parhau, mae’r rhaglen wedi dangos grym cydweithio, cymorth wedi’i deilwra, ac ymgysylltiad rhagweithiol wrth feithrin cymunedau cynhwysol.**

**Bydd y gwersi a ddysgwyd o’r fenter hon yn llywio strategaethau’r dyfodol i wella systemau cymorth i bobl niwroamrywiol, gan sicrhau bod gan bob plentyn y cyfle i ffynnu.**

***“Mae’r rhaglen hon wedi bod yn achubiaeth. Mae wedi newid popeth i’n teulu.” — Rhiant/Gofalwr***